# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 7 Hydref 2014** |
| Amser: | **08.30 - 08.44** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Mewn ymateb i ymholiad Elin Jones yn y cyfarfod diwethaf, rhoddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gyfrifoldebau'r Dirprwy Weinidog Iechyd.

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Mae'r Llywodraeth wedi symud y ddwy sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer dydd Mercher 15 Hydref i ddydd Mawrth 14 Hydref.

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(iv), penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes trwy gyfrwng pleidleisio wedi'i bwysoli. Pleidleisiodd Llafur a Phlaid Cymru o blaid symud busnes 15 Hydref i gyfarfodydd eraill oherwydd y gweithredu diwydiannol disgwyliedig gan staff y Comisiwn a staff Llywodraeth Cymru, tra pleidleisiodd y Ceidwadwyr Cymreig a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn erbyn symud y busnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu’r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mawrth 21 Hydref 2014 –**

- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (60 munud) – eitem wedi'i symud o 15 Hydref.

- Dadl Fer – Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud) – eitem wedi'i symud o 15 Hydref.

**Dydd Mercher 22 Hydref 2014 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud) – eitem wedi'i symud o 15 Hydref.

**Dydd Mercher 5 Tachwedd 2014 –**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

- Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

Nododd y Rheolwyr Busnes na chafodd unrhyw gynigion eu cyflwyno gan Aelodau unigol ar gyfer dadl ar 15 Hydref. Oherwydd y gweithredu diwydiannol a drefnwyd ar y diwrnod hwnnw, cytunodd y Rheolwyr Busnes na fyddai'r eitem yn cael ei haildrefnu.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid trefnu Dadl Aelod Unigol arall ar gyfer dydd Mercher 3 Rhagfyr 2014, gan gymryd camau i annog Aelodau i gyflwyno cynigion.